

Llywodraeth Cymru
Welsh Government


# Y Gell Cyngor Technegol

# Crynodeb o'r cyngor

22 Ionawr 2021







(h) Hawlfraint y Goron 2020

# Y Gell Cyngor Technegol: Crynodeb

22 Ionawr 2021

**Crynodeb o'r Prif Bwyntiau**

- Mae'r amcangyfrif diweddaraf o'r Rhif atgynhyrchu ($R_t$) ar gyfer Cymru gan y Grŵp Cynghori Gwyddonol ar Argyfyngau (SAGE) (fel ag yr oedd ar 20 Ionawr) rhwng 0.7 a 0.9. Dyma'r amcangyfrif swyddogol o'r rhif $R_t$ i Gymru yn seiliedig ar y data sydd ar gael hyd at 18 Ionawr. Mae SAGE yn amcangyfrif bod yr epidemig yn crebachu rhwng -6% a -3% y dydd.

- Yn seiliedig ar nifer yr achosion yn unig, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn amcangyfrif bod $R_t$ rhwng 0.71 a 0.73 (fel ag yr oedd ar 15 Ionawr) a bod yr amser haneru yn 15.1 diwrnod (fel ag yr oedd ar 19 Ionawr).

- Ar gyfer y cyfnod o 7 diwrnod a ddaeth i ben ar 21 Ionawr, roedd positifedd profion (cyfnod treigl o 7 diwrnod) yn 14.9%, sydd wedi gostwng ers yr wythnos ddiwethaf, ond sy'n parhau'n uchel ac sy'n uwch na'r dangosydd sbarduno cyfyngiadau coch ym mhob ardal o Gymru. Mae positifedd uchaf yn ardaloedd Wrecsam (23.9%) a Sir y Fflint (21.1%) yn y Gogledd, a Chaerdydd (21.4%) a Phen-y-bont ar Ogwr (16.8%) yn y De.

- Dengys data o astudiaeth heintiadau'r ONS bod cyfraddau heintio wedi sefydlogi yn yr wythnos ddiweddaraf ar 1.45%, ar ôl disgyn o'r brig a welwyd ychydig cyn y Nadolig. Dengys dadansoddiad o amrywiolyn newydd y DU ac amrywiolion eraill o'r coronafeirws bod y gostyngiad diweddaraf yng Nghymru wedi cael ei sbarduno gan yr amrywiolion eraill. Ymddengys bod achosion sy'n gydnaws â'r amrywiolyn newydd wedi cynyddu yn ystod yr wythnosau diwethaf. Er bod ansicrwydd ynglŷn â'r amcangyfrifon, mae'n ymddangos bod cyfraddau gwrthgyrff wedi cynyddu yn ystod y misoedd diwethaf.

- Fel ag yr oedd ar 20 Ionawr, mae VOC 202012/01 (VOC1, a nodwyd gyntaf yng Nghaint) yn parhau i gynyddu ym mhob rhan o Gymru, gan gyfrif am tua 70% o achosion diweddar. Adroddwyd bod chwe achos tebygol neu a gadarnhawyd ar sail genomeg o VOC2020/12/01 yng Nghymru (yr amrywiolyn sy'n gysylltiedig â De Affrica). Nid oes unrhyw achosion o'r amrywiolion sy'n gysylltiedig â Brasil wedi'u nodi eto yng Nghymru.

- Er bod y setiau data a ddefnyddir yn gyfyngedig eu natur a bod ansicrwydd ynghylch maint unrhyw effeithiau, nododd SAGE fod tystiolaeth newydd yn dangos bod posibilrwydd gwirioneddol, o'i gymharu ag amrywiolion "gwyllt" (nad ydynt yn rhai VOC), bod heintiad gan amrywiolyn y DU sy'n peri pryder (VOC 202012/01) yn gysylltiedig â chynnydd bach mewn risg absoliwt o farwolaeth. Fodd bynnag, fel gydag amrywiolion eraill, clefyd ysgafn a gaiff y rhan fwyaf o

bobl sy'n cael eu heintio gan yr amrywiolyn hwn, ac mae'r risg o farwolaeth ar gyfer pob heintiad yn parhau'n isel.

- Mae'n dal yn wir nad oes unrhyw dystiolaeth y ceir dihangfa antigenig sylweddol o imiwnedd naturiol neu imiwnedd a gafwyd drwy frechlyn ar gyfer yr amrywiolyn B.1.1.7 (VOC 202012/01) ac mae tystiolaeth gynyddol y bydd yr ymateb imiwnedd i frechlyn yn effeithiol yn erbyn yr amrywiolyn hwn. Mae mwy o bryder a mwy o dystiolaeth ynghylch dihangfa antigenig yn achos yr amrywiolion a nodwyd yn Ne Affrica a Brasil.

- Fel ag yr oedd ar 20 Ionawr, mae cyfran y galwadau i GIG 111 a Galw Iechyd Cymru, nifer y galwadau ambiwlans, ac ymgyngoriadau meddygon teulu ar gyfer unrhyw Haint Anadlol Acíwt neu amheuaeth o COVID-19 wedi gostwng.

- Fel ag yr oedd ar 21 Ionawr, mae nifer y bobl y cadarnhawyd bod ganddynt COVID-19 yn yr ysbyty wedi dangos arwyddion o sefydlogi ac o leihau dros yr wythnosau diwethaf, ond mae'n parhau'n uchel ac yn uwch na'r brig ym mis Ebrill. Mae defnydd cyffredinol o welyau gofal critigol (cleifion COVID-19 a chleifion nad oes ganddynt COVID-19) a defnydd gwelyau ar gyfer cleifion COVID-19 yn unig yn parhau'n uchel ac yn agos at y brig a welwyd ym mis Ebrill.

- Mae nifer wythnosol y marwolaethau a gofnodwyd drwy drefniadau gwyliadwriaeth gyflym o farwolaethau gan Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi gostwng yn yr wythnos ddiweddaraf, ond mae'n parhau'n uwch na'r brig a welwyd yn ystod y don gyntaf. Mae data ar farwolaethau gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, sy'n fwy cyflawn ond sy'n ddarostyngedig i oedi o ran yr amser cofnodi, yn dangos, ar gyfer yr wythnos sy'n dod i ben ar 15 Ionawr, fod 40% o'r holl farwolaethau yn gysylltiedig â COVID-19, gyda 13 yn rhagor na'r wythnos flaenorol, a'r nifer uchaf o farwolaethau sy'n gysylltiedig â COVID-19 a gofrestrwyd mewn wythnos ers i'r pandemig ddechrau. Dylid trin y data yn ofalus oherwydd cyfnod gwyliau'r Nadolig.

- Mewn adroddiad arall gan ONS yr wythnos hon sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 9 Mawrth a 28 Rhagfyr, dangoswyd bod y gyfradd marwolaethau yn uwch ymhlith dynion o gymharu â menywod. Galwedigaethau elfennol, iechyd a gofal, hamdden, gweithredwyr peiriannau a pheiriant a galwedigaethau gwasanaeth eraill oedd â'r cyfraddau marwolaethau uchaf. O edrych ar alwedigaethau gofal iechyd penodol, roedd y gyfradd marwolaethau sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn uwch ymhlith staff nyrsio. Ni welwyd cynnydd yng nghyfraddau marwolaethau sy'n gysylltiedig â COVID-19 mewn dynion a menywod sy'n gweithio ym maes addysgu ac yn y proffesiynau addysgol. Yn gyffredinol, dengys y dadansoddiad bod swyddi lle ceir cysylltiad rheolaidd â COVID-19, a bod y rheini sy'n gweithio'n agos at eraill yn parhau i fod â chyfraddau marwolaethau COVID-19 uwch. Ond

nid yw'r dadansoddiad yn profi'n bendant bod cyfraddau marwolaethau o reidrwydd yn cael eu hachosi gan wahaniaethau o ran cysylltiad galwedigaethol.

- Fel ag yr oedd yr wythnos a ddaeth i ben ar 23 Ionawr, mae cyfanswm o 264,538 dos o frechlyn COVID-19 (516 ohonynt yn ail ddos) wedi'u rhoi yng Nghymru. Bydd nifer gwirioneddol y dosau yn uwch yn sgil cofnodi data'n barhaus.

- Mae data ymlyniad gan IPSOS MORI yn dangos gwelliannau yn y lefelau dealltwriaeth a chydymffurfiaeth hunangofnodedig o gymharu â chyn i lefel rhybudd 4 gael ei rhoi ar waith, ac mae hyn yn cefnogi canlyniadau arolwg yr wythnos flaenorol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Dengys data symudedd ar gyfer yr wythnos ddiweddaraf (yn bennaf y drydedd wythnos gyfan ym mis Ionawr) rywfaint o gynnydd bach. Mae patrymau symudedd yn parhau i fod yn unol â'r cyfnod atal byr – gyda lefelau'n bennaf rhwng wythnos gyntaf ac ail wythnos y cyfnod atal byr.

- Cyhoeddir papurau SAGE a ystyriwyd gan y Gell Cyngor Technegol yma.

- Cyhoeddwyd papur ar risgiau heintio mewn cyfleusterau ymarfer corff dan do gan y Grŵp Cyngor Technegol yr wythnos hon.

**Y gyfradd twf a'r rhif atgynhyrchu**

- Mae SAGE yn amcangyfrif bod y gyfradd twf ddyddiol bresennol (fel ag yr oedd 20 Ionawr) rhwng -0.06 a -0.03 (cyfwng hyder o 90%) yng Nghymru, sy'n dangos y gallai heintiadau fod yn crebachu rhwng -6% a -3% y dydd

- Mae'r amcangyfrif diweddaraf o'r Rhif atgynhyrchu (Rt) ar gyfer Cymru gan SAGE (fel ag yr oedd ar 20 Ionawr) rhwng 0.7 ac 0.9 (cyfwng hyder o 90%). Dangosir yr amcangyfrif o Rt fel amrediad heb amcangyfrif canolog.

- Mae'n bwysig nodi ei bod yn anodd datgysylltu effaith y mesurau cyfredol a'r newidiadau o ran cymysgu dros gyfnod yr ŵyl.

- Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn amcangyfrif $R_t$ ar gyfer Cymru gan ddefnyddio data ar nifer yr achosion positif. Fel ag yr oedd ar 15 Ionawr, amcangyfrifir bod $R_t$ yng Nghymru rhwng 0.71 a 0.73 (cyfwng hyder o 95%).

- Dylid bod yn ofalus o hyd wrth ddehongli amcangyfrifon o $R_t$ a chyfraddau twf ar gyfer y DU oherwydd yr oedi anorfod sydd ynghlwm wrthynt, argaeledd profion ac oherwydd bod y ffigurau hyn yn cuddio amrywiad yn nifer yr heintiadau a'r modd y mae'r cyfraddau trosglwyddo yn newid mewn rhai rhannau o'r wlad. Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r amcangyfrifon hyn oherwydd gallent gael eu heffeithio gan newidiadau mewn patrymau profi dros y gwyliau.

- Dangosir yr amcangyfrifon o $R_t$ fel amrediad heb amcangyfrif canolog. Mae cyfradd twf sy'n is ond sy'n dal yn bositif, neu rif $R_t$ uwch nag 1, yn dangos bod yr epidemig yn tyfu fwyfwy.


### Amser haneru

- Fel yr oedd ar 19 Ionawr, amcangyfrifodd Iechyd Cyhoeddus Cymru fod yr amser haneru (yr amser y mae'n ei gymryd i nifer yr achosion haneru) yn 15.1 diwrnod (cyfwng hyder o 95%) o 9.6 i 35.8 gan ddefnyddio data o 02/01/2021 i 15/01/2021 (gweler y Ffigur isod).

- Mae amser haneru (a chyfraddau twf $R_t$), yn rhoi syniad o gyfradd y newid ac felly dylid ei drin yn ofalus am y rhesymau a amlinellir uchod.

### Diweddariad rhyngwladol

- Mae'r map isod yn dangos y gyfradd hysbysu gyfartalog fesul 100,000 o bobl yn yr UE mewn cyfnod o 14 diwrnod. Nid yw'r DU wedi'i chynnwys oherwydd Brexit.




- Mae'r sefyllfa gyffredinol yn Ewrop o ran heintiadau yn un o gyflwr cyson neu lefelau sy'n lleihau'n araf ac eithrio mewn dwy wlad, Sbaen a Phortiwgal, lle mae'r cyfraddau heintio dyddiol yn codi'n gyflym.

- Ddydd Iau 21.01.2021, cofnododd Sbaen ei nifer uchaf o achosion newydd, sef 44,357, a 404 o farwolaethau gan ddod â chyfanswm y marwolaethau i dros 55,000. Mae'r wlad wedi brechu mwy nag 1 miliwn o bobl ond ni ddisgwylir y bydd digon o bobl wedi'u brechu (hy 70%) i ganiatáu mynediad agored i ymwelwyr cyn canol yr haf ar y cynharaf.

- Ddydd Gwener, 22.01.2021, cofnododd Portiwgal ei nifer uchaf o farwolaethau ac un o'r lefelau uchaf o heintiadau yn y byd. Awgrymir mai'r rheswm am hyn yw cyfraddau heintio cynyddol a achosir gan amrywiolyn y DU yn benodol, gydag adroddiadau bod yr amrywiolyn yn gyfrifol am tua 20% o'r achosion sy'n cael eu dilyniannu ym Mhortiwgal. Mae pryder bellach yn cynyddu gan fod y gyfran hon wedi cynyddu'n sylweddol o'r hyn yr oedd wythnos yn ôl, gyda rhybudd y gallai'r straen hon gyfrif am 60% o'r holl heintiadau cyn diwedd y mis.

- Ymhlith y gwledydd sy'n profi lefel gyson, uchel (hy nid yw'n codi) o achosion newydd y mae Ffrainc, yr Almaen, Awstria, Gwlad Belg, Czechia, Estonia, Hwngari, Latfia, Norwy, Slofacia a Slofenia. Fel y DU, mae'r gwledydd hyn yn rheoli eu pandemig drwy gynnal cyfyngiadau a rheolaethau llym.


- Ymhlith y gwledydd sydd â chyfraddau heintio dyddiol sy'n gostwng y mae Bwlgaria, Croatia, Denmarc, y Ffindir, yr Eidal, Gwlad Groeg, Lithwania, yr Iseldiroedd, Gwlad Pwyl, Rwmania a Sweden. Mae hyn yn gwrthdroi llawer o'r cynnydd cyflym iawn a brofwyd drwy fis Hydref, Tachwedd a Rhagfyr, yn enwedig yng Ngwladwriaethau'r Baltig.

- Mewn mannau eraill, mae cyfraddau heintio wedi dechrau sefydlogi mewn llawer o wledydd yn Ne America (Brasil, Chile, Periw, Paraguay, Uruguay) a gostwng mewn rhai (yr Ariannin), ond mae'r darlun yn dameidiog gyda rhai gwledydd yn profi cynnydd (Bolivia, Colombia). Mae hyn yn anarferol gan ei bod yn haf yn y gwledydd hyn ar hyn o bryd.

- Mae data ynglŷn â'r darlun ledled Ewrop, gan gynnwys cafeatau ynghylch oedi o ran data ac amrywiaeth mewn polisïau profi, ar gael yma.

## Nifer yr achosion


- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer yr achosion o COVID-19 a gadarnhawyd y dydd (swm cyfnod treigl o 7 diwrnod, fesul 100,000 o'r boblogaeth). Mae achosion yn parhau i ddangos tuedd ar i lawr.




**Ffynhonnell:** Data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fel ag yr oeddent ar 20 Ionawr

## Proffil oedran

- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer yr episodau COVID-19 a gadarnhawyd fesul 100,000 o'r boblogaeth, yn ôl wythnos casglu sampl a grŵp oedran.




**Ffynhonnell:** Dangosfwrdd Llywodraeth Cymru, data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fel ag yr oeddent ar 20 Ionawr.

- Yn ôl Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn ystod Wythnos 02, gostyngodd y digwyddedd achosion ym mhob grŵp oedran, gyda'r nifer mwyaf o achosion ymhlith y rhai 85 oed a hŷn.

**Canlyniadau Astudiaeth Heintiadau COVID-19**


- Mae data arolwg heintiadau ONS ar gyfer yr wythnos ddiweddaraf (10 i 16 Ionawr 2021) yn dangos bod y gyfradd positifedd yng Nghymru wedi sefydlogi yn yr wythnos ddiweddaraf, ar ôl disgyn o'r brig a welwyd ychydig cyn y Nadolig.

- Ar gyfer yr wythnos o 10 i 16 Ionawr 2021, roedd gan gyfartaledd o 1.45% o'r boblogaeth gymunedol COVID-19 (cyfwng credadwy o 95%: 1.18% i 1.74%).

- Mae hyn gyfystyr ag oddeutu 1 person ym mhob 70 (bwlch credadwy o 95%: 1 o bob 85 i 1 o bob 60), neu 44,000 o bobl yn ystod y cyfnod hwn (cyfwng credadwy o 95%: 36,000 i 52,800).

- Mae'r Ffigur isod yn dangos yr amcangyfrifon diweddaraf ar gyfer cyfraddau positifedd (%) ers 6 Rhagfyr 2020 ar draws pedair gwlad y DU.

- Mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrifon pwynt unigol ar gyfer y gwledydd. Ceir mwy o ansicrwydd mewn perthynas â'r amcangyfrifon ar gyfer y dyddiau olaf yn y gyfres, a ddangosir fel llinellau toredig yn y siart isod.





**Ffynhonnell:** Arolwg Heintiadau Coronafeirws (COVID-19), ONS, 20/01/21

<u>Dadansoddiad o achosion sy'n gydnaws â'r amrywiolyn newydd</u>

- Mae'n ymddangos bod achosion sy'n gydnaws â'r **amrywiolyn newydd** wedi cynyddu yn ystod yr wythnosau diwethaf yng Nghymru. Dengys dadansoddiad o amrywiolyn newydd y DU ac amrywiolion eraill o'r coronafeirws bod y

gostyngiad diweddaraf yng Nghymru wedi cael ei sabrduno gan yr amrywiolion eraill.

- Mae'r Siart isod yn dangos canran amcangyfrifedig yr achosion positif sy'n gydnaws ag amrywiolyn newydd y DU ac achosion positif eraill.




Source: Coronavirus (COVID-19) Infection Survey, ONS
The lines and shading represent the modelled trend and 95% credible intervals based on the latest data. Estimates for the last few days of the series, shown as dashed lines in the chart, have more uncertainty.

- Mae'r data hyn yn ddefnyddiol gan mai'r rhain yw'r unig amcangyfrifon o heintio sy'n cynnwys achosion asymptomatig yn ogystal ag achosion symptomatig, ac nid yw ffactorau eraill fel capasiti profi na nifer y bobl sy'n dod ymlaen i gael eu profi yn effeithio arnynt. Mae'r canlyniadau ar gyfer cartrefi preifat yn unig – y 'boblogaeth gymunedol' – ac nid ydynt yn berthnasol i bobl mewn ysbytai, cartrefi gofal neu leoliadau sefydliadol eraill.

- Mae'n bwysig pwysleisio'r ansicrwydd ynghylch y ffigurau hyn. Gan mai cymharol ychydig o brofion positif y mae'r arolwg yn eu casglu yn gyffredinol, gall y canlyniadau fod yn sensitif i newidiadau bach yn nifer y profion positif hyn.


<u>Gwrthgyrff</u>

- Ym mis Rhagfyr, profodd 9.8% o'r bobl a ddarparodd samplau gwaed yn bositif am wrthgyrff COVID-19 (cyfwng hyder o 95%: 6.9% i 13.3%).

- Mae hyn gyfystyr ag 1 o bob 10 o bobl 16 oed a throsodd (cyfwng hyder o 95%: 1 o bob 14, i 1 o bob 8) neu 247,000 o bobl 16 oed a throsodd yn ystod y cyfnod hwn (cyfwng hyder o 95%: 175,000 i 337,000).

- Er bod ansicrwydd ynglŷn â'r amcangyfrifon, mae'n ymddangos bod cyfraddau gwrthgyrff wedi cynyddu yn ystod y misoedd diwethaf.

- Gall lefelau gwrthgyrff yn y gwaed ddirywio dros amser, sy'n golygu y gall rhai pobl sydd wedi cael COVID-19 yn flaenorol gael prawf gwrthgyrff negatif wedi hynny. Am y rheswm hwn, dylid ystyried y ffigurau hyn fel amcangyfrifon o gyffredinrwydd misol, nid cysylltiad cronnol.




Mae'r bariau glas yn rhoi amcangyfrifon pwynt ac mae'r llinellau fertigol yn dangos y cyfyngau hyder o 95%. Ffynhonnell: Arolwg Heintiadau Coronafeirws (COVID-19), ONS, 15/01/21

- Cyhoeddir canlyniadau ar gyfer Cymru yma ac yma gan ONS.

**Brechu yng Nghymru**

- Fel ag yr oedd ar 25 Ionawr, mae cyfanswm o 270,833 dos cyntaf o frechlyn COVID-19 wedi'u rhoi yng Nghymru. Mae 543 o bobl wedi derbyn dau ddos.

- Bydd nifer gwirioneddol y dosau yn uwch oherwydd cofnodi data'n barhaus.

- Mae data ar frechiadau ar gael o tableau Iechyd Cyhoeddus Cymru.

**Marwolaethau**

- Mae'r Ffigur isod yn dangos y swm treigl 7 diwrnod o farwolaethau COVID-19 a gofnodwyd drwy drefniadau gwyliadwriaeth cyflym o farwolaethau gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 22 Ionawr 2021. Mae nifer wythnosol y marwolaethau a gofnodwyd wedi gostwng yn yr wythnos ddiweddaraf. Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r tueddiadau diweddaraf.





**Ffynhonnell:** Dangosfwrdd Llywodraeth Cymru, data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fel ag yr oeddent ar 22 Ionawr.

- Mae'n bwysig nodi bod y data hyn yn cynnwys adroddiadau am farwolaeth cleifion mewn ysbytai neu gartrefi gofal yng Nghymru lle mae COVID-19 wedi'i gadarnhau drwy brawf labordy positif a bod y clinigwr yn amau bod COVID-19 yn ffactor a achosodd farwolaeth. Nid yw'n cynnwys cleifion a allai fod wedi marw o COVID-19 ond na chadarnhawyd hynny drwy brofion labordy, y rhai a fu farw mewn lleoliadau eraill, neu breswylwyr Cymru a fu farw y tu allan i Gymru. Bydd gwir nifer y marwolaethau yn uwch.

- Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn adrodd ar farwolaethau yr amheuir a'r rheini y cadarnhawyd eu bod o ganlyniad i COVID-19 gan ddefnyddio data sydd ar gael ar ôl cwblhau'r broses cofrestru marwolaethau ac er eu bod yn destun oedi, maent yn fwy cyflawn.

- Mae'r Ffigur isod yn dangos data ONS o nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â COVID-19 a gofrestrwyd fesul wythnos yng Nghymru a nifer y marwolaethau o bob achos a gofrestrwyd fesul wythnos rhwng 28 Rhagfyr 2019 a 15 Ionawr 2021.





Data ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

- Yng Nghymru, cynyddodd nifer y marwolaethau cofrestredig sy'n gysylltiedig â COVID-19 o 454 (Wythnos 1) i 467 (Wythnos 2), yr uchaf a gofnodwyd ar unrhyw adeg yn ystod y pandemig.

**Glynu wrth y mesurau presennol a dealltwriaeth ohonynt**


- Ceir data newydd gan IPSOS MORI yr wythnos hon. Mae canlyniadau Iechyd Cyhoeddus Cymru yr un fath â'r wythnos ddiwethaf.
- Mae data diweddaraf IPSOS MORI ar gyfer y cyfnod 15-19 Ionawr ar gyfer Cymru yn dangos cynnydd o'r arolwg diwethaf, cyn i lefel rhybudd 4 gael ei chyflwyno (4-7 Rhagfyr). Roedd y rhai a ddywedodd eu bod wedi gwisgo gorchudd wyneb ar ei uchaf ers dechrau casglu data ac roedd y rhai a ddywedodd eu bod wedi gwneud teithiau hanfodol yn unig ar ei uchaf ers mis Mai ac yn uwch na'r arolwg yn ystod y cyfnod atal byr. Dylid nodi mai'r unigolion eu hunain sy'n cofnodi a ydynt wedi glynu wrth y mesurau ai peidio, ac y bydd dealltwriaeth unigolion o'r rheolau a'r amgylchiadau sy'n berthnasol iddynt hwy yn effeithio ar y data.
- Mae'r Ffigur isod yn cynrychioli data a gasglwyd ar-lein gan IPSOS MORI fel rhan o arolwg a gynhaliwyd mewn sawl gwlad ar blatfform Global Advisor. Mae pob un o'r tonnau wedi cynnwys oddeutu 500 o ymatebwyr yng Nghymru. Mae'r sampl yn fras yn cynrychioli'r boblogaeth oedolion 16-74 oed. Mae'r data'n cael eu pwysoli i adlewyrchu proffil oedran a rhyw poblogaeth Cymru rhwng 16 a 74 oed. Mae gan bob sampl ffin cyfeiliornad. Ar gyfer sampl o tua 500, mae hyn yn +/-4.8 pwynt canran.




- Mae canlyniadau diweddaraf yr Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd ynghylch Iechyd a Llesiant yn ystod y Mesurau Coronafeirws ar gyfer y cyfnod 4 Ionawr - 10 Ionawr yn dangos bod 52% o bobl yn dweud eu bod yn deall y cyfyngiadau presennol yn eu hardal leol yn 'dda iawn'. Dywedodd 39% arall eu bod yn deall y cyfyngiadau yn 'eithaf da'. Mae'r canlyniadau hyn yn uwch na'r rhai yng nghanol mis Rhagfyr cyn i lefel rhybudd 4 ddechrau. Mae'r canlyniadau hefyd yn dangos bod 49% o bobl wedi dweud eu bod yn dilyn y cyfyngiadau coronafeirws yn 'gyfan gwbl' a bod 41% arall wedi dweud eu bod yn cydymffurfio â'r mwyafrif, sydd unwaith eto yn uwch nag yng nghanol mis Rhagfyr. Dywedodd 20% fod pobl y tu allan i'w haelwyd/aelwyd estynedig a ganiateir wedi dod i mewn i'w tŷ, a dywedodd 15% eu bod wedi mynd i dai pobl eraill – mae'r ddwy ganran hon yn is nag yng nghanol mis Rhagfyr.

## Symudedd

- Dengys data symudedd ar gyfer yr wythnos ddiweddaraf (yn bennaf y drydedd wythnos gyfan ym mis Ionawr) rywfaint o gynnydd bach. Mae patrymau symudedd yn parhau i fod yn unol â'r cyfnod atal byr – gyda lefelau'n bennaf rhwng wythnos gyntaf ac ail wythnos y cyfnod atal byr.





- Mae symudedd defnyddwyr Facebook yng Nghymru yn dangos bod symudiadau 30% yn is na'r llinell sylfaen ar gyfer yr wythnos hyd at 22 Ionawr. Mae hyn yr un fath â'r wythnos flaenorol. 35% oedd canran y defnyddwyr a oedd yn aros lle yr oeddent (yn agos at gartref), ychydig yn is na'r wythnos flaenorol (36%). Y llinell sylfaen yw'r gwerth canolrifol ar gyfer yr un diwrnod o'r wythnos, yn ystod y cyfnod 4 wythnos o 2 Chwefror - 29 Chwefror 2020.

- Mae data Apple ar gyfer yr wythnos hyd at 23 Ionawr yn dangos bod ceisiadau am gyfarwyddiadau gyrru yng Nghymru wedi cynyddu o gymharu â'r wythnos flaenorol ar 71% o'r llinell sylfaen (i fyny o 68%). Cynyddodd nifer y ceisiadau am gyfarwyddiadau cerdded ac roedd ceisiadau am gyfarwyddiadau trafnidiaeth gyhoeddus yn debyg mewn perthynas â'r llinell sylfaen o gymharu â'r wythnos ddiwethaf. Y llinell sylfaen yw 13 Ionawr 2020.

- Mae data symudedd Google hyd at wythnos 19 Ionawr yn dangos gostyngiad bach mewn data preswyl (hy pobl sy'n treulio amser gartref) o gymharu â'r wythnos flaenorol ar 15% yn uwch na'r llinell sylfaen (i lawr o 16%). Dangosa gweithleoedd ostyngiad (ar 41% yn is na'r llinell sylfaen, i lawr o 40%). Mae manwerthu a hamdden yn dangos gostyngiad bach ers yr wythnos ddiwethaf (60% yn is na'r llinell sylfaen, i lawr o 58% yr wythnos flaenorol) ac mae archfarchnadoedd a fferylliaeth yn dangos gostyngiad (24% yn is na'r llinell sylfaen, i lawr o 21%). Mae trafnidiaeth gyhoeddus a pharciau yn dangos gostyngiad o'i gymharu â'r wythnos flaenorol.

- Mae'r Ffigur isod yn dangos y newid o ran symudedd yng Nghymru gan ddefnyddio data symudedd Google. Mae'r ffigurau yn seiliedig ar gyfartaledd yr awdurdodau lleol hynny sydd â data. Y llinell sylfaen yw'r gwerth canolrifol, ar gyfer y diwrnod cyfatebol o'r wythnos, yn ystod y cyfnod 5 wythnos 3 Ionawr - 6 Chwefror 2020. Nid yw'r data ar gyfer sawl categori ar gael ar gyfer 17 Awst - 10 Medi oherwydd nad yw'r data'n bodloni trothwyon ansawdd.




- Mae data ffôn symudol dienw, cyfanredol o O2 ar gyfer yr wythnos hyd at 15 Ionawr yn dangos lefel debyg o deithiau o'i gymharu â'r wythnos flaenorol. Cododd teithiau sy'n dechrau yng Nghymru o 1 pwynt canran i 50% yn is na'r llinell sylfaen. Y llinell sylfaen ar gyfer data O2 yw'r un diwrnod o'r wythnos yn ystod wythnos gyntaf mis Mawrth.

**Ymchwil**

- Mae 10,533 o gleifion o Gymru wedi'u recriwtio i astudiaethau iechyd y cyhoedd brys COVID-19 ar hyn o bryd, sy'n gynnydd o 656 ers yr adroddiad diwethaf.

**Crynodeb gwyliadwriaeth ac epidemiolegol wythnosol COVID-19 gan Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Fel ag yr oedd ar 20 Ionawr

- Gostyngodd cyfran y galwadau i GIG 111 a Galw Iechyd Cymru a oedd yn ymwneud â symptomau COVID-19 posibl o gymharu â'r wythnos flaenorol.

- Yn gyffredinol, mae ymgyngoriadau gan feddygon teulu ar gyfer unrhyw Haint Anadlol Acíwt ac achosion a amheuir o COVID wedi gostwng yr wythnos hon o gymharu â'r wythnos flaenorol.

- Mae nifer y galwadau ambiwlans a allai fod yn gysylltiedig â COVID-19 wedi gostwng yn yr wythnos ddiweddaraf.

- Mae nifer yr episodau COVID-19 a gadarnhawyd gan y labordy wedi parhau i ostwng yn yr wythnos ddiweddaraf. Roedd positifedd samplau ar gyfer episodau profi yn 17% yn wythnos 02.

- Yn ystod wythnos 02, gostyngodd y digwyddedd achosion ar draws pob grŵp oedran, roedd nifer yr achosion ar eu huchaf ymhlith y rhai 85+ oed.

- Mae nifer yr achosion a gadarnhawyd a phositifedd episodau profi wedi gostwng ym mhob ardal yng Nghymru yn ystod yr wythnosau diwethaf.

- Ar lefel genedlaethol, cadarnhawyd bod derbyniadau o achosion i ysbytai yn sefydlog o gymharu â'r wythnos flaenorol. Gostyngodd achosion a gadarnhawyd sy'n gleifion mewnol yn yr ysbyty yn ystod yr wythnos ddiweddaraf, ond cynyddodd derbyniadau i wardiau gofal critigol i'r lefel uchaf erioed.

- Mae data gwyliadwriaeth diweddar yn awgrymu bod heintiadau COVID-19 yng Nghymru yn gostwng yn y rhan fwyaf o ardaloedd Cymru. Ceir achosion dros ardal ddaearyddol eang o hyd, ond mae'r tueddiadau o ran digwyddedd achosion a gadarnhawyd yn gostwng yn y rhan fwyaf o ardaloedd awdurdodau lleol yn ystod yr wythnos ddiweddaraf.

- Mae nifer y digwyddiadau yr adroddwyd arnynt yn ystod yr wythnosau diwethaf wedi gostwng ond mae'n parhau i fod yn uchel mewn cartrefi gofal preswyl.

- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ysgol yn cael eu haddysgu ar-lein ar hyn o bryd, gyda rhywfaint o ddysgu wyneb yn wyneb ar gyfer plant sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol. Mae gwybodaeth gwyliadwriaeth ysgolion i’w chael ar ddangosfwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru.

- Mae VOC 202012/01 (VOC1, a nodwyd gyntaf yng Nghaint) yn parhau i gynyddu ym mhob rhan o Gymru, gyda thua 70% o achosion diweddar yn VOC1. Adroddwyd bod 6 achos tebygol neu a gadarnhawyd ar sail genomeg o VOC2020/12/01 yng Nghymru (yr amrywiolyn sy'n gysylltiedig â De Affrica), a bu 878 o achosion a gadarnhawyd ar sail genomeg o VOC 202012/01. Nid oes unrhyw achosion o'r amrywiolion sy'n gysylltiedig â Brasil wedi'u nodi eto yng Nghymru.

- Nid yw’r Ffliw a’r Feirws Syncytiol Anadlol (RSV) yn cylchredeg yng Nghymru ar hyn o bryd.

**Dadansoddiad awdurdodau lleol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru**

(Cyfnod sy'n cwmpasu 10 i 16 Ionawr 2021)

- Mae pob awdurdod lleol yn y trothwy uchaf ar gyfer digwyddedd 7 diwrnod (> 50 fesul 100,000) a phositifedd profion (>5%).


- Byddwch yn ofalus wrth ddehongli tueddiadau ar gyfer y cyfnod diweddaraf gan nad yw data profi bob amser yn gyflawn a bydd y ffigurau'n cael eu diwygio yn y dyfodol os bydd data yn cael eu cyflwyno'n hwyr.

### Defnydd o welyau mewn ysbytai

- Mae'r Ffigur isod yn dangos y defnydd o welyau ysbytai sy'n cael eu defnyddio gan gleifion y cadarnhawyd bod ganddynt COVID-19, yn ystod ton gyntaf ac ail don y pandemig (cyfartaledd treigl 7 diwrnod, fel ag yr oedd ar 21 Ionawr 2021).




- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y gwelyau mewn unedau gofal dwys (ICU) sy'n cael eu defnyddio gan gleifion y cadarnhawyd bod ganddynt COVID-19 yn ystod ton gyntaf ac ail don y pandemig (cyfartaledd treigl 7 diwrnod, fel ag yr oedd ar 21 Ionawr 2021).





- Fel ag yr oedd ar 21 Ionawr, mae nifer y bobl y cadarnhawyd bod ganddynt COVID-19 yn yr ysbyty wedi sefydlogi a gostwng dros yr wythnosau diwethaf,


ond mae'n parhau'n uchel ac yn uwch na'r brig a welwyd ym mis Ebrill. Yn gyffredinol, mae defnydd gwelyau mewn unedau gofal dwys (cleifion sydd â COVID-19 a chleifion nad oes ganddynt COVID-19) hefyd yn uchel ac yn agos at y brig a welwyd ym mis Ebrill.

- Wrth ystyried data ar gapasiti (245 o welyau) a defnydd gwelyau (203 o welyau) a adroddwyd inni gan fyrddau iechyd lleol, mae tua 83% o welyau ICU Lefel 3 ledled Cymru yn cael eu defnyddio gan gleifion sydd â COVID a chleifion nad oes ganddynt COVID (fel ag yr oedd ar 25 Ionawr). Fodd bynnag, fel arfer ceir oddeutu 152 o welyau gofal critigol (sy'n gyfwerth ag ICU Lefel 3) ac felly mae ysbytai'n creu capasiti gwelyau gofal critigol ychwanegol yn sgil galw cynyddol. Felly, mae'r defnydd o welyau unedau gofal critigol yng Nghymru yn 100% neu ragor o'u capasiti gofal critigol arferol ac efallai na fydd cymhareb staff nyrsio 1:1 ar gyfer pob claf critigol yn bosibl i lawer o gleifion, hyd yn oed gyda staff nad ydynt yn gweithio fel arfer ym maes gofal critigol yn helpu i ofalu am gleifion.


- Mae'r Ffigur isod yn dangos cyfanswm nifer y bobl sydd wedi cael prawf COVID-19 positif ac sydd mewn unedau gofal dwys mewn ysbytai ar draws y gwahanol fyrddau iechyd yng Nghymru. Data fel ag yr oeddent ar 25 Ionawr 2021.





- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y bobl a dderbyniwyd i'r ysbyty ac yr amheuir bod ganddynt COVID-19 neu y cadarnhawyd hynny. Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, ac mae'r llinellau llwyd gwannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny. Data fel ag yr oeddent ar 25 Ionawr 2021.



- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y bobl a ryddhawyd o'r ysbyty yr amheuir neu y cadarnhawyd bod ganddynt COVID-19. Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, ac mae'r llinellau llwyd gwannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny. Data fel yr oeddent ar 25 Ionawr 2021.





- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y cleifion a dderbyniwyd i'r unedau gofal dwys yr amheuir bod ganddynt COVID-19 neu y cadarnhawyd hynny. Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, ac mae'r llinellau llwyd gwannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny. Data fel yr oeddent ar 25 Ionawr 2021.




**Ffon fesur tebygolrwydd Pennaeth y Proffesiwn Asesu Gwybodaeth (PHIA)**

- Os yw hynny'n briodol, bydd y Gell Cyngor Technegol yn mynegi tebygolrwydd neu hyder yn y cyngor a ddarperir gan ddefnyddio ffon fesur tebygolrwydd PHIA i sicrhau cysondeb ar draws gwahanol elfennau'r cyngor a roddir.


Fraction
1/20
1/10
1/5
1/4
1/3
2/5
1/2
5/9
3/4
4/5
9/10
19/20
remote chance
highly unlikely
unlikely
realistic possibility
likely or probable
highly likely
almost certain
Percent
5%
10%
20%
35%
40%
55%
80%
90%
95%
0%
25%
50%
75%
100%